Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer
Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

Summit SKILLS

Adolygiad Blynyddol 2008 – 2009



Rhageiriau

Yn ystod y saith mlynedd diwethaf, ers cyfarfod cyntaf y Grŵp Gweithredu Sgiliau Sector yn y Reform Club, mae cymaint wedi cael ei wneud ac eto, fel y mae o hyd, mae llawer mwy i'w wneud eto.

Mae weithiau'n fy nharo ein bod wedi cyflawni gwyrth wrth ddod â gwaith tri NTO gwahanol ar wahân at ei gilydd fel gwaith SummitSkills. Yn wir, rydym wedi gwneud mwy na hynny gan fod gwaith SummitSkills cymaint yn fwy na fu gwaith y tri NTO erioed. Ond pam ddylwn i synnu? Mae'r diwydiannau sy'n perthyn i'r sector wedi llwyddo i gyflawni campau annisgwyl a rhagorol erioed. Pam? Oherwydd mae pobl y sector yn frwd dros lwyddiant ac yn fwy brwd fyth os daw'r llwyddiant hwnnw drwy waith caled mewn amgylchedd hynod anodd.

Gyda'r stoc o unigolion yn y sector nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd SummitSkills yn parhau i gyflawni gwyrthiau a chyflawni dros y rheiny sy'n gweithio ynddo.

Simon Bartley
Prif Weithredwr, UK Skills

Pleser o'r mwyaf yw derbyn rôl cadeirydd y bwrdd ar gyfer cyngor sgiliau sector mor uchel ei glod â SummitSkills. Mae gan y sefydliad hanes hir o gyflwyno, perfformiad a dylanwad ac mae'n fraint ysgwyddo'r sefyllfa ardderchog hon gan y cyn gadeirydd Simon Bartley.

Fy nod yw cynnal ac adeiladu ar lwyddiant blaenorol. Edrychaf ymlaen at arwain SummitSkills i gyflawni'r amrywiol brosiectau o fewn ein Cytundeb Sgiliau Sector (CSS), cynyddu ein proffil ar draws y DU, lobïo'r Llywodraeth ar faterion allweddol sy'n effeithio ar ein sector a chyflawni'r amcanion strategol sy'n parhau'n ganolog i'n dyfodol.

Yn y cyfnod economaidd anodd hwn, credaf ei fod yn bwysig bod busnesau yn cwrdd â'r her i aros yn gystadleuol tra'n sicrhau bod gennym weithlu medrus wrth i'r economi adfer. At hynny, mae'r ymdrech i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon yn faes twf lle mae ein sector yn chwarae rôl allweddol, felly mae datblygu sgiliau ymhellach yn hanfodol, yn enwedig wrth i'r DU ddynesu at asesiad perfformiad Kyoto yn 2010.

Mae gennym fwrdd cryf, tîm gweithredol ymrwymedig ac ymroddedig, staff o'r radd flaenaf, a chefnogwyr allweddol sy'n cynnwys cymdeithasau masnach, y Llywodraeth a chyflogwyr unigol. Ar y cyd gallwn gynnig i'r sector y sgiliau hyblyg o ansawdd uchel sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at ddwyn SummitSkills ymlaen i gyflawni mwy fyth.

Ian Livsey
Cadeirydd y Bwrdd, SummitSkills

Ni ellir gwadu y bu'n flwyddyn heriol, nid yn unig ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau ond i'r economi yn gyffredinol. Rydym yn gwybod y bydd busnesau yn dioddef effaith y dirywiad ond drwy fod yn ymwybodol o'r canlyniadau posib, gallwn fod yn fwy parod i ymdrin â'r newidiadau. Dyna pam mae ein hadroddiad am effaith y dirwasgiad mor bwysig.

Rwy'n credu'n gryf y bydd busnesau sy'n parhau i fuddsoddi yn sgiliau eu gweithlu yn cynnal eu mantais gystadleuol yn y cyfnod heriol hwn a thu hwnt. Yn wir, dangosodd y dirwasgiad diwethaf bod cwmnïau a ddaeth â hyfforddiant i ben ddwywaith a hanner yn fwy tebygol o fynd i'r wal. Rydym wedi gweithio'n arbennig o galed drwy gydol 2008 i gyflawni'r nodau a gyflwynwyd yn ein CSS, cytundeb ar y cyd rhwng cyflogwyr, rhanddeiliaid a'r Llywodraeth i yrru anghenion datblygu sgiliau'r sector a'i gyfeiriad yn y dyfodol, ac mae'r gwaith hwn yn bwysicach nawr nac erioed.

Mae'n bleser croesawu ein cadeirydd newydd Ian Livsey, a ymunodd â ni ym mis Ionawr ac sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod yn cyflawni'r amrywiol brosiectau o fewn y CSS. Ian yw olynydd Simon Bartley a fu'n gadeirydd ar SummitSkills ers creu'r sefydliad. Rwy'n ddiolchgar tu hwnt i Simon am ei ran yn adeiladu SummitSkills i'r man lle y mae heddiw, o'n dyddiau cynharaf i gyflawni ein CSS, ac edrychaf ymlaen at weithio gydag Ian wrth i ni weithio drwy gyfnod nesaf gweithgarwch SummitSkills.

Mae Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES) wedi dechrau ar asesiad ail-drwyddedu pob cyngor Sgiliau Sector (SSC). Bydd y broses bwysig hon yn cryfhau ac yn gwella amcanion ac uchelgeisiau ar gyfer pob CSS. Mae gwerthusiad SummitSkills ar waith eisoes ac edrychaf ymlaen at gyhoeddi'r canlyniad, a ddisgwylir ddiwedd y gwanwyn 2009. Cyhoeddir hyn ar ein gwefan yn www.summitskills.org.uk

Keith Marshall
Prif Weithredwr, SummitSkills

Cynllun strategol 2008–13 ac ail-drwyddedu

Yn 2008 cyhoeddodd SummitSkills ei gynllun strategol yn cwmpasu'r pum mlynedd nesaf o 2008–2013.

Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar y cynnydd ardderchog yr ydym wedi'i wneud wrth fynd i'r afael ag agenda sgiliau peirianneg gwasanaethau adeiladau ac yn amlinellu ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol yn glir.

Mae'r cynllun yn nodi ein chwe amcan strategol sef:

- ymgysylltu cyflogwyr
- cynnig arbenigedd, diogelu safonau
- gwella ansawdd a chyflwyno
- cynyddu uchelgais
- effeithiolrwydd ac esblygiad
- ymagwedd partneriaeth

Eglurir pob un o'r amcanion hyn yn glir o fewn y cynllun, sydd hefyd yn nodi'r gwaith y byddwn yn ei gyflawni dros y pum mlynedd i ymdrin â hwy a'u cyflawni. Cewch weld y cynllun ar ein gwefan: www.summitskills.org.uk

Ail-drwyddedu

Mae UKCES wedi dechrau ar y broses ail-drwyddedu ar gyfer pob CSS. Mae SummitSkills eisoes wedi cyflawni llawer o'r broses fydd yn gweld pob un o'r 25 yn cael eu hystyried erbyn Rhagfyr 2009.

Cynhyrchodd adroddiad Leitch yn 2006 *Prosperity for all in the global economy – World Class Skills* yr argymhelliad ail-drwyddedu. Dylai asesu arwain at CSSau cryfach ac nid oes cynlluniau penodol i leihau eu nifer presennol.

Mae hwn yn gam pwysig i SummitSkills oherwydd mae llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig yn rhoi lefelau cynyddol o ddylanwad i ni dros bolisi sgiliau, diwygio cymwysterau a'r ffordd y mae darpariaeth ddysgu yn cael ei chyflwyno.

Penodwyd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i gynnal pob asesiad perfformiad annibynnol a chynhaliwyd cyfweliad â'n prif swyddog gweithredol Keith Marshall a chadeirydd ein bwrdd Ian Livsey ym mis Chwefror 2009. Ymgynghorwyd â staff SummitSkills, rhanddeiliaid a chyflogwyr hefyd am eu barn wrthrychol. Mae hyn yn rhan ganolog o'r broses ail-drwyddedu a bydd eu sylwadau yn helpu i fesur ein perfformiad.

Yn dilyn ymweliad gan Gomisiynydd y DU Charlie Mayfield ym mis Ebrill 2009, bydd SummitSkills yn ymgymryd â chyfweliad panel cyn i UKCES wneud eu hargymhelliad terfynol i'r Llywodraeth.

Rydym yn disgwyl penderfyniad canol mis Mai a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau ar wefan SummitSkills yn www.summitskills.org.uk

Cytundeb Sgiliau Sector

Aeth 12 mis heibio bellach ers lansio'r Cytundeb Sgiliau Sector (CSS) ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Pwrpas y CSS yw deall y materion sgiliau sy'n wynebu cyflogwyr, a gweithio gyda hwy a rhanddeiliaid i ddatblygu datrysiadau fydd yn arwain at wella sgiliau'n sylweddol a manteision cynhyrchedd tymor hwy i'r sector.

Y pum blaenoriaeth sgiliau sy'n sail i'r CSS yw:

- Delwedd a Chymhwysedd
- Cyfathrebu a Gwybodaeth
- Darpariaeth Hyfforddiant
- Ariannu
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Mae nifer o raglenni sector yn cael eu cyflwyno i weithredu cynlluniau gweithredu'r CSS.

Rydym wedi gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid i sefydlu grwpiau gweithredu ar draws naw rhanbarth Lloegr a'r tair gwlad ddatganoledig. Mae'r rhain yn cwrdd bob chwarter i fonitro cynnydd a darparu arweiniad ar weithredu'r cynlluniau gweithredu.

Mae'r grwpiau wedi bod yn adolygu ac yn cytuno ar eu blaenoriaethau lleol allweddol yn ddiweddar ar gyfer y flwyddyn nesaf o fewn cynllun gweithredu cyffredinol y CSS.

Bydd adolygiad 12 mis ar wahân o'r CSS yn ôl rhanbarth a gwlad yn cael ei gyhoeddi ganol 2009.

Ymgysylltu cyflogwyr:
ymgysylltu â chyflogwyr ac unigolion i hybu manteision datblygu sgiliau

Cynllun Llysgenhadon
Lansiodd SummitSkills ymgyrch yn ystod gwanwyn 2009 i recriwtio unigolion talentog o beirianneg gwasanaethau adeiladau i ddod yn llysgenhadon, a helpu recriwtiaid newydd i archwilio'r cyfleoedd gyrfa ardderchog mae gan ein sector i'w cynnig.

Mae llysgenhadon yn unigolion uchel eu parch sydd eisoes yn gweithio yn y sector a gallant ddod o unrhyw lefel, o dechnegydd crefft i reolwr. Maent yn gwirfoddoli i rannu cyfoeth eu gwybodaeth a'u profiad gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau gyrfaoedd a gefnogir gan SummitSkills.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, y sefydliad cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r pynciau hyn, sydd â mwy na 19,000 o lysgenhadon cofrestredig yn genedlaethol ar draws pob sector.

I gael gwybod mwy am y cynllun a gweld ein llawlyfr llysgenhadon ewch i:
www.summitskills.org.uk/Llysgenhadon

Hyfforddiant trydanol i brentisiaid plymo
Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, cymdeithasau masnach, darparwyr hyfforddiant, colegau, Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA), a'r Awdurdod Iechyd a Diogelwch i fynd i'r afael â phryderon am y lefelau cymhwysedd sydd eu hangen i sicrhau bod prentisiaid plymo sy'n ymgymryd â'r S/NVQ Lefel 3 yn MES Plymo Domestig yn gallu ymgymryd yn ddiogel ag agweddau trydanol eu gwaith.

Gweithiodd y grŵp yn agos â BPEC i adolygu'r manylion a chynhyrchu deunydd hyfforddiant newydd yn cwmpasu'r gwaith trydanol cyfyngedig ei gwmpas sy'n gysylltiedig â gosodiadau plymo.

Mae cwrs hyfforddi ac asesu i ddarlithwyr sy'n cyflwyno'r hyfforddiant hwn wedi cael ei sefydlu i ganiatáu i'r rheiny dan sylw dderbyn yr hyfforddiant hwn erbyn Mehefin 2009.

Prosiect trydanol Llundain ar gyfer 2012
Yn y cyfnod yn arwain at y Gemau Olympaidd mewn tair blynedd, mae SummitSkills wedi rheoli prosiect mewn cydweithrediad ag Asiantaeth Datblygu Llundain, Awdurdod Cyflwyno'r Gemau Olympaidd ac a gefnogwyd gan y Sefydliad Contractwyr Trydanol, i annog cyflogwyr trydanol y brif ddinas i gyfeirio'u hyfforddiant i gwrdd â'r sgiliau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer paratoadau 2012 a thu hwnt.

Mae'r fenter hyfforddi oedolion hon yn rhoi cyfleoedd i gyflogwyr lleol lunio rhaglen hyfforddiant cyngyflogaeth sy'n gweld newydd-ddyfodiaid yn dilyn proses ddethol drylwyr, fel mai'r gorau yn unig sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer cyfweliad. Darperir asesu NVQ ar y safle gan ddarparwyr hyfforddiant o safon.

Ariennir ymgeiswyr yn llawn i ennill statws NVQ Lefel 3 felly bydd cyflogwyr yn talu cyfraddau hyfforddiant sefydlog y diwydiant yn unig. Mae arian hefyd ar gael ar gyfer y prawf AM2 a diweddariadau Rhifyn 17eg.

Mae'r prosiect yn anelu at helpu busnesau i leddfu bylchau sgiliau allweddol, gan wella ansawdd ac addasrwydd gweithlu'r sector trydanol.

Menywod mewn Adeiladu
Mae argymhelliad gan SummitSkills wedi esgor ar strategaeth Menywod mewn Adeiladu genedlaethol fel rhan o gynllun gweithredu tair blynedd a ddatblygwyd gan Inspace, darparwr gwasanaeth arbenigol yn y farchnad tai cymdeithasol. Pan awgrymasom y dylai'r cwmni ymgymryd ag arolwg Offeryn Dadansoddi Diwylliannol, gweithredodd Inspace y cynllun a gefnogwyd gan waith gyda phartneriaid JIVE (rhan o Ganolfan Adnoddau'r DU i fenywod).

Mae'r cynllun yn cynnwys gweithio mwy hyblyg, gofal plant â chymhorthdal a rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb rhywiol. Sefydlwyd grwpiau llywio hefyd i archwilio amrywiaeth yn y gymuned, tâl teg, dyrchafiadau a gweithredu'r ymddygiad cywir yn y gweithle.

Mae Inspace wedi nodi canllawiau tâl cyfartal ar gyfer pob swydd a llwybr gyrfa diffiniedig i staff a masnachau yn y gweithlu i sicrhau bod strwythurau a disgrifiadau swyddi cyson yn eu lle ar draws y busnes.

Yn ogystal â siarad â disgyblion mewn ysgolion am fanteision prentisiaethau, datblygodd y cwmni raglen profiad gwaith at y diben i ferched ysgol i annog mwy o fenywod i ddatblygu gyrfaoedd mewn masnachau lle maent yn draddodiadol wedi'u tangynrychioli.

"Rhaid i ni barhau i hyrwyddo, datblygu a chynnal gwerthoedd traddodiadol y brentisiaeth, ac annog pobl i ddangos ymrwymiad i ddysgu a datblygiad personol yn eu dewis yrfa."
Alan Murphy – PSG Richard Allen Consultants Ltd, Bromsgrove

Cynnig arbenigedd, diogelu safonau:
bod yn llais awdurdodol y sector wrth ddiffinio anghenion sgiliau yn y dyfodol

Adroddiad ar y dirwasgiad a chyngor gyrfaoedd
O ganlyniad i ymchwil a gynhaliwyd gan SummitSkills i archwilio effeithiau posib y dirwasgiad ar y gweithlu peirianneg gwasanaethau adeiladau, cynhyrchwyd adroddiad gennym ym mis Mawrth 2009 oedd yn amlygu sut y gallai beichiau gwaith y sector gael eu heffeithio gan y dirywiad economaidd. Mae'r adroddiad – *Impact of the Recession on the Building Services Engineering Sector* – yn archwilio sut y gallai busnesau yn y sector deimlo'r effaith wrth i'r dirwasgiad bwyso arnynt.

Adroddodd fwy na dau draean o'r ymgynghorwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil ffigurau calonogol ar gyfer recriwtio graddedigion. Fodd bynnag, cawsom y gallai fod cynifer â 154,000 o swyddi mewn perygl yn y diwydiant contractio os yw'r dirywiad yn gwaethygu. Mae'r rhagamcanion hyn yn unol â ffigurau diweddar y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol sy'n dangos bod y diwydiant adeiladu yn y DU wedi dioddef mwy na 45,000 o achosion o golli gwaith yn ystod chwarter olaf 2008.

Gallwch weld copi o ganfyddiadau'r adroddiad ar wefan SummitSkills yn: www.summitskills.org.uk/recession

Mae SummitSkills eisoes wedi dechrau ar nifer o gamau i helpu busnesau a gweithlu'r sector. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi cyflogwyr i amrywiaethu hyfforddiant gweithwyr presennol i mewn i feysydd datblygol newydd fel technolegau adnewyddadwy, a chefnogi addysg a hyfforddiant newydd-ddyfodiaid i helpu i baratoi'r sector wrth i ni symud allan o'r dirwasgiad.

Rydym wedi cynhyrchu dogfen arweiniad ar gyngor gyrfaoedd i helpu cyflogwyr, hyfforddeion a gollodd eu lle neu brentisiaid sy'n dymuno ymuno â'r sector yn Lloegr ond nad oes ganddynt gyflogwr.

Gellir lawrlwytho copi o'r canllaw hwn o'n gwefan: www.summitskills.org.uk/careersadvice (Mae cyngor tebyg ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ei gynhyrchu a bydd ar gael yn fuan).

Wrth sôn am yr adroddiad, dywedodd Keith Marshall OBE, prif weithredwr SummitSkills: "Mae ein hamcangyfrifon yn seiliedig ar dybiaethau y gellir dylanwadu arnynt gan nifer o newidynnau, ond mae'n anochel y bydd busnesau yn cael eu heffeithio gan y dirwasgiad, ac yn wir mae hynny eisoes wedi digwydd. Drwy fod yn ymwybodol o'r canlyniadau posib, gallwn ddechrau paratoi mesurau wrth gefn i gynorthwyo cyflogwyr y sector."

Ffilm technolegau amgylcheddol
Gweithiodd SummitSkills gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) i gynhyrchu ffilm fer am dechnolegau amgylcheddol y sector. Dangoswyd *Tackling climate change – a building services engineering perspective* yng Nghynhadledd Newid yn yr Hinsawdd LGA ym mis Ionawr cyn cael ei dangos yn gyhoeddus ar y sianel llywodraeth leol ar deledu Sky.

Mae'r deunydd yn cynnwys cyfweliadau gyda'n prif swyddog gweithredol Keith Marshall, yn ogystal â David Matthews o'r Sefydliad Ynni Cenedlaethol, Warren Edwards, cyfarwyddwyr adeiladu a thechnoleg yng Ngholeg Bedford, a Giles Hanford o The Small Solar Company sy'n siarad am effaith newid yn yr hinsawdd o safbwynt cyflogwr.

Gallwch weld y ffilm ar wefan SummitSkills: www.summitskills.org.uk/envirotech

Rhaglen Asesu Cenedlaethol Summitskills
I helpu i bontio'r bwlch i weithwyr profiadol, gweithiodd SummitSkills mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Contractwyr Gwresogi ac Awyru (HVCA) a SKILLcard Gwasanaethau Peirianneg i ddatblygu Rhaglen Asesu Genedlaethol SummitSkills (SNAP).

Cynlluniwyd hyn yn benodol ar gyfer gweithwyr profiadol yn y diwydiant gwresogi, awyru, tymheru a rheweiddiad y mae angen arnynt gymwysterau ffurfiol (S/NVQs) i ennill SKILLcards, rhywbeth y mae eu hangen yn aml i gael swydd. Gall y gweithwyr hyn nawr gael eu sgiliau wedi'u cydnabod drwy asesiad ar y safle yn arwain at gymwysterau ffurfiol.

Mae SNAP yn helpu i godi safonau a lleihau risg, gan alluogi gwell cynllunio o ran gweithwyr er mwyn trechu prinderau sgiliau a chynyddu hyder cwsmeriaid yn ansawdd y gwasanaethau y mae busnesau yn eu darparu.

Mae'r rhaglen yn cynnig cydnabyddiaeth ffurfiol o sgiliau presennol pobl, gan roi mynediad i fusnesau i gronfa o weithwyr gwerthfawr gyda galluoedd profedig, ac mae'n edrych yn debygol y bydd yn parhau yn y dyfodol.

Canllaw cyflogwyr i Ddiplomâu
Cynhyrchodd SummitSkills ganllaw newydd i gyflogwyr peirianneg gwasanaethau adeiladau i'w helpu i ddeall a chefnogi'r ddau Ddiploma newydd a gyflwynwyd gan ysgolion a cholegau o fis Medi 2008.

Mae'r ddau Ddiploma – un ar gyfer Peirianneg a'r llall mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig – yn anelu at wella dealltwriaeth myfyrwyr o'n gwaith yn y sector drwy ddangos i bobl ifanc pa mor gyffrous a heriol y mae'n gallu bod. Mae canllaw SummitSkills yn egluro'n union beth yw'r Diplomâu ac yn amlinellu manteision cymryd rhan.

I gael gwybod mwy a gweld copi o'r canllaw ewch i wefan SummitSkills: www.summitskills.org.uk/diplomas

"Mae'n bwysig i gipio dychymyg myfyrwyr posib ac mae dulliau modern, arloesol SummitSkills yn llwyddo i wneud hynny."
Steve Hunt, RhG Steven A Hunt & Associates

Gwella ansawdd a chyflwyno:
sicrhau bod y cyflenwad o bobl, sgiliau a chymwysterau yn cael ei arwain gan gyflogwyr

Strategaeth Sgiliau Sector
Datblygodd SummitSkills y Strategaeth Cymwysterau Sector peirianneg gwasanaethau adeiladau (SQS) yn ystod 2008 a chyhoeddwyd hyn ym mis Mawrth 2009.

Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth a ddarparwyd gan ganlyniad yr ymchwil CSS a werthusodd pa mor addas at y diben yw'r cymwysterau presennol a'r ymgynghoriad datblygu SQS a ymgymerwyd gan SummitSkills.

Mae'r SQS yn cynnig golwg ar ein gweledigaeth ar gyfer strwythur a defnydd cymwysterau yn y dyfodol, a blaenoriaethau cysylltiedig nad ydynt yn ymwneud â chymwysterau. Mae'n adlewyrchu ein hymagwedd at ddatblygu cymwysterau ar gyfer y sector, ac yn archwilio datrysiadau ac argymhellion y gellid eu defnyddio i wella perfformiad busnes y sector dros y 10 mlynedd nesaf.

Adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
Mewn partneriaeth ac ymgynghoriad â'n cyflogwyr a phartneriaid allweddol eraill, cwblhaodd SummitSkills adolygiad cynhwysfawr o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Cynhyrchodd ddeilliannau'r adolygiad hwn SGC diwygiedig, strwythurau N/SVQs a Strategaeth Asesu'r Sector sy'n gydnaws â'r galwedigaethau ar lefel Gweithredydd yn y sector.

Maent yn ffurfio'r patrymlun ar gyfer datblygu cymwysterau seiliedig ar fedrusrwydd fel NVQs ac sy'n ategi ac yn cefnogi anghenion sgiliau'r sector a nodwyd yn ein SQS.

Mae SummitSkills hefyd wedi datblygu set o SGC ar gyfer gosod, gwasanaethu a chynnal systemau technoleg adnewyddadwy ac amgylcheddol. Y safonau hyn yw'r gwaelodlin ar gyfer meini prawf cyflwyno ac asesu ar gyfer gwella sgiliau presennol gweithredwyr yn y sector. Er enghraifft mae gosod system dŵr poeth thermol solar yn estyniad o blymo neu beirianneg gwresogi domestig ac mae gosod ffotofolteddau solar yn estyniad o set sgiliau electrodechnegol.

Manyleb fframwaith gradd sylfaen
Mae SummitSkills wedi gweithio mewn ymgynghoriad â chyflogwyr, prifysgolion, colegau addysg bellach, cymdeithasau masnach a chyrff proffesiynol i ddatblygu manyleb fframwaith gradd Sylfaen mewn prosiect a ariannwyd gennym ar y cyd â Foundation degree forward.



Cynlluniwyd y fanyleb fframwaith i arwain y rheiny sydd ynghlwm wrth ddatblygu neu adolygu'r graddau Sylfaen ar gyfer ein sector. Mae mwy o wybodaeth ar gael o'n gwefan yn www.summitskills.org.uk/fds lle y gallwch weld y crynodeb, y canllaw cyflogwr/cyflogai neu lawrlwytho'r ddogfen gyfan.

Rydym yn gobeithio sefydlu rhwydwaith o ymarferwyr gradd Sylfaen i gynnwys cyflogwyr a darparwyr fydd yn ymwneud â datblygu'r cymhwyster yn unol ag anghenion cyflogwyr, fel a nodwyd yn ein manyleb fframwaith.

Safon Ansawdd Hyfforddiant
Pan amlygodd ein CSS bryderon gan gyflogwyr y sector am ymatebolrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant, ymgymerodd SummitSkills ag ymchwil gofalus a nododd y Safon Ansawdd Hyfforddiant (TQS) fel y marc ansawdd hyfforddiant a argymhellwyd ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Mewn cydweithrediad â SummitSkills, mae'r fframwaith TQS yn cynnig ardystio rhagoriaeth mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau – rydym yn ymwneud ag adolygu ceisiadau ar gyfer Rhan B y safon sy'n berthnasol i'n sector, sef darparu arweiniad a chefnogaeth i ddarparwyr hyfforddiant.

Mae TQS yn fframwaith asesu a phrosesu ardystio cadarn i sefydliadau sy'n cyflwyno datrysiadau hyfforddiant a datblygu ymatebol o ansawdd uchel i gyflogwyr. Mae'r safon yn canolbwyntio ar gyflogwyr yn unig a dim ond darparwyr hyfforddiant sydd wedi'u cymeradwyo gan y busnesau y maent yn eu gwasanaethu a all gyflawni ardystiad. Dim ond y gorau sy'n cael eu hardystio, felly gall cyflogwyr fod yn hyderus yn ansawdd uchel y datrysiadau sydd ar gael.

Train to Gain
Mae Train to Gain wedi newid peirianneg gwasanaethau adeiladau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy wneud mwy o fusnesau'r sector yn ymwybodol o'r arian sydd ar gael. Mae'r dirywiad economaidd wedi rhoi mwy o bwysau nag erioed ar gwmnïau i gystadlu am y gwaith mwy yn seiliedig ar gardiau sgiliau a setiau sgiliau.

Mae hyn wedi annog llawer o gwmnïau i fabwysiadu ein rhaglen SNAP i helpu i ehangu set sgiliau eu cyflogeion i isafswm o NVQ 2/3 gyda SKILLCard cysylltiedig.

Mae SummitSkills yn falch o gefnogi BEST Ltd, JTL Ltd a QTS Ltd wrth gyflwyno rhaglen SNAP.

Mae'r Llywodraeth wedi mynd i'r afael â nifer o'r cyfyngiadau o fewn Train to Gain. Mae bellach yn caniatáu i bobl ymgymryd â NVQau ychwanegol yn rhan fwyaf y masnachau BSE mawr, hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli, gyda chynnydd o 9% mewn ariannu dros 3 blynedd*. Mae'r ffocws nawr ar ddarnau bach o hyfforddiant penodol i'r sector. Mae SummitSkills bellach yn parhau i weithio gyda'r LSC i gynyddu'r meysydd hyfforddiant galw uchel ac anghenion uchel ar gyfer ein sector drwy hyblygrwydd ychwanegol mewn hyfforddiant.

* o *Train to Gain Additional Flexibilities 2008/09 A Guide for colleges and training providers – 9 Rhagfyr 2008*

"Mae hyder busnesau wedi cael ei gyfaddawdu yn ddiweddar gan nifer bach o fanciau a sefydliadau ariannol yn gweithredu'n anghyfrifol, gan gyflwyno problemau ar gyfer ein sector wrth i brosiectau gael eu gohirio neu eu canslo. Fodd bynnag, mae hyn wedi creu cyfleoedd ar gyfer busnesau a reolir yn dda sydd wedi buddsoddi yn sgiliau eu gweithlu."
Steve Craddock – Cyfarwyddwr Ariannol, C A Sothers Ltd

Cynyddu uchelgais:

cynyddu uchelgais cyflogwyr a buddsoddiad mewn sgiliau a hyrwyddo agenda sgiliau'r sector

Ymgyrch Good Day
Yn dilyn canlyniadau ddeilliodd o'n CSS, lansiodd SummitSkills ymgyrch newydd ysgogol i annog recriwtiaid newydd i'r sector ac ysbrydoli cyflogwyr i recriwtio a hyfforddi.

Mae'r ymgyrch yn amlygu astudiaethau achos gwirioneddol i ddangos bod y sector yn yrfa heriol a llawn boddhad. Mae Good Day yn annog cyflogwyr i recriwtio a hyfforddi drwy ddangos sut mae diwrnod da mewn busnes yn sylfaenol gysylltiedig â gweithlu medrus, gan brofi bod hyfforddiant yn talu.

I gefnogi'r ymgyrch, cynhyrchwyd amrywiaeth o ddeunydd gyrfaoedd a chyflogwyr newydd, yn cynnwys DVD gyrfaoedd, gêm ryngweithiol a llyfrynnau astudiaeth achos. Am fanylion a deunydd i'w lawrlwytho ewch i www.goodday.org.uk

Cystadlaethau sgiliau 2008
Bu'r 12 mis diwethaf yn llwyddiannus iawn yn ein calendr cystadlaethau. Gwelodd Skill M&E, y cystadlaethau poblogaidd a drefnir gan SummitSkills, yr ymgeiswyr gorau o ar draws y DU yn cystadlu mewn digwyddiadau a gynlluniwyd i hyrwyddo safonau a sgiliau mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Yn dilyn llwyddiant SkillELECTRIC, SkillFRIDGE a SkillPLUMB mewn cyfres o rowndiau terfynol proffil uchel y DU, ym mis Ionawr 2009 lansiwyd elfen newydd o'r gyfres o gystadlaethau Skill M&E. Cynlluniwyd SkillPIPE i hyrwyddo safonau a sgiliau ar draws y diwydiant gwresogi ac awyru. Anelir y gystadleuaeth yn benodol at brofi'r sgiliau mewn gwaith pibellau gwresogi masnachol.

Mae enwebiadau eisoes ar waith ar gyfer 2009 ac mae'r prif gystadleuwyr yn cael eu dethol ar gyfer rowndiau terfynol y DU i'w cynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gellir gweld manylion holl gystadlaethau Skill M&E, newyddion a digwyddiadau ar ein gwefan gystadlaethau benodedig yn www.skillMandE.org.uk

Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol 2009
Dathlodd Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol 2009 gyflawniadau talent orau'r sector peirianneg gwasanaethau adeiladau mewn seremoni a gynhaliwyd yn y Llyfrgell Brydeinig ar 25 Mawrth.

Ymddangosodd prentisiaid, peirianwyr a rheolwyr medrus o flaen cyflogwyr, cynrychiolwyr colegau ac arweinwyr y diwydiant mewn cydnabyddiaeth o'u gwaith caled a'u hymrwymiad i safonau uchel.

Cafwyd araith gymhellol a chyffrous gan Nigel Vardy (yn y llun), mynyddwr Prydeinig arobryn a pheiriannydd trydanol. Llongyfarchodd y siaradwr gwadd yr Arglwydd Young yr enillwyr a disgrifiodd bwysigrwydd sgiliau a datblygu ar gyfer y sector.

Digwyddiadau gyrfaoedd
Mewn blwyddyn brysur iawn o ddigwyddiadau gyrfaoedd aeth y tîm ar draws y DU gyfan. Gweithiodd SummitSkills ochr yn ochr â chyflogwyr rhanbarthol a sefydliadau cenedlaethol mewn cyfres o ddigwyddiadau mawr.

Aethom â'n hymgyrch gyrfaoedd Good Day ar draws y wlad, gan gwrdd â myfyrwyr, athrawon, rhieni ac ymgynghorwyr gyrfaoedd i ddangos y cyfleoedd gyrfa ardderchog mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Ymgysylltodd SummitSkills â nifer fawr iawn o bobl. Yn Skills London, er enghraifft, roedd 53,000 o ymwelwyr â'r digwyddiad, yn cynnwys Maer Llundain, Boris Johnson, a roddodd gynnig ar rai o'r gweithgareddau ymarferol a rhyngweithiodd â phobl ifanc ac arddangoswyr. Roedd pob arddangosfa yn dangos ein DVD gyrfaoedd, gêm ryngweithiol a llyfrynnau gyrfaoedd newydd, oedd yn hynod boblogaidd ac roedd adborth gan ymwelwyr yn bositif iawn.

Prawf fod hyfforddiant yn talu
Mae SummitSkills wedi datblygu cyfres o astudiaethau achos cyflogwyr a gynlluniwyd i ddangos bod hyfforddiant yn talu.

Gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus
Parhaodd SummitSkills i gynyddu ei broffil cysylltiadau cyhoeddus. Mae'r sylw wedi bod yn arbennig o lwyddiannus ynghylch cyhoeddusrwydd am ein cystadlaethau sgiliau, gyda diddordeb helaeth gan gyhoeddiadau masnach y sector ar gyfer pob digwyddiad.

Fel rhan o'n hymgais i gael gwared ar raglenni hyfforddiant annigonol, hyrwyddodd SummitSkills ei ymgyrch gyntaf seiliedig ar ddefnyddwyr i rybuddio pobl sy'n ystyried newid gyrfa i fod yn ofalus rhag sefydliadau hyfforddiant ffug. Canlyniad hyn oedd sylw o ran datganiadau i'r wasg gwerth bron i £12,000 mewn hysbysebu cyfatebol. Derbyniodd yr ymgyrch gefnogaeth bositif gan y Gymdeithas Contractwyr Plymo a Gwresogi, a'r Sefydliad Siartredig Plymo a Pheirianneg Gwresogi.

Rydym wedi gweld cynnydd sefydlog yn y sylw yr ydym yn ei dderbyn yn y wasg yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, yn cynnwys erthygl amlwg am brentisiaethau yn atodiad addysg The Times. Roedd y Gwobrau Gwasanaethau Adeiladau a gwobrau SELECT hefyd yn llwyfan ardderchog i amlygu nawdd SummitSkills o'r categorïau hyfforddiant.

Mae cyhoeddiadau masnach sy'n cwmpasu diwydiannau craidd y sector wedi parhau i gynnig sylwadau ac erthyglau yn hyrwyddo sgiliau a hyfforddiant mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau, ac rydym yn edrych ymlaen at gynnal amlygrwydd y sector yn ystod y flwyddyn i ddod.

"Mae ansawdd uchel y sgiliau yn y wlad hon cystal ag unrhyw le yn y byd. Rwy'n credu bod y cystadlaethau sgiliau a drefnir gan SummitSkills yn ffordd wych o ddangos pa mor dda y gallwn fod."
Diane Johnson, ECA

Effeithiolrwydd ac esblygiad:

datblygu gallu ein sefydliad yn barhaus, gan ddefnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon

CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Gogledd Iwerddon
Llythrennedd a rhifedd
Mae SummitSkills wedi cychwyn ar brosiect dwy flynedd ar y cyd yng Ngogledd Iwerddon i annog mwy o gyflogwyr i ymgysylltu â hyfforddiant i wella llythrennedd a rhifedd gweithlu'r sector. Mae'n ffurfio rhan o raglen ddysgu at y diben y mae SummitSkills yn rhedeg mewn partneriaeth gydag Unite the Union a'r Electrical Training Trust (ETT).

Gallai pobl sy'n cwblhau hyfforddiant llythrennedd, rhifedd neu TGCh sylfaenol yn llwyddiannus gynyddu i City & Guilds Lefel 2 mewn Cefnogaeth i Ddysgwyr sy'n Oedolion (C&G 9295 V2), gan ddod yn llysgenhadon dysgu i gefnogi cydweithwyr gydag anawsterau llythrennedd a rhifedd.

Nod y fenter dysgu yn y gweithle hon yw helpu cyflogwyr i gadw staff a gwella cynhyrchedd busnes drwy ganolbwyntio ar well perfformiad ac ansawdd. Dros y ddwy flynedd nesaf bydd SummitSkills yn cydweithio gyda ETT i annog 150 o leiaf o gyflogwyr trydanol lleol i gymryd rhan yn y prosiect ac rydym yn gweithio'n galed i ymestyn y cynllun i ddiwydiannau eraill yn ein sector.

Cymru – arian ReAct
I amlygu ymhellach y materion ar gyrsiau hyfforddiant nad ydynt cystal â'r disgwyl, mae SummitSkills wedi gweithio mewn partneriaeth â ReAct, cronfa gweithredu ar golli gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn y dyfodol, bydd yn rhaid i weithwyr sydd wedi colli'u gwaith yng Nghymru sy'n ailhyfforddi mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau ymgymryd â chyrsiau sy'n cwrdd â gofyniad isafswm cymwysterau.

Oherwydd y gall hyfforddiant anghydnabyddedig esgor ar gyfraddau llwyddiant cyflogaeth isel, mae cyngor SummitSkills wedi helpu sicrhau na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried ceisiadau hyfforddiant i'w cefnogi gan grant ReAct oni bai eu bod yn cyflawni isafswm NVQ Lefel 2 (ac eithrio hyfforddiant plymo neu osodwr nwy sy'n gofyn am NVQ Lefel 3). Ni fydd tystysgrifau technegol yn gymwys felly ar gyfer ReAct oni bai y cânt eu cynnig gydag NVQ.

Mae SummitSkills wedi cynhyrchu dogfen ganllaw i'n sector i helpu yngynghorwyr ReAct ddangos i gleientiaid posib y llwybrau hyfforddiant a'r cymwysterau mwyaf priodol a gydnabyddir gan y diwydiant fydd yn arwain at gyflogaeth gynaliadwy. Gellir lawrlwytho copi o'r canllaw hwn a'r nodiadau canllaw ReAct o'n gwefan yn www.summitskills.org/react

Yr Alban

- **Systemau technoleg amgylcheddol**
  Yn dilyn cwblhau'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer systemau technoleg amgylcheddol, mae SummitSkills yn gweithio gyda'r SQA a phartneriaid yn y diwydiant i ddatblygu unedau cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer meysydd technoleg unigol mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau.

  Ym mis Tachwedd, dechreuodd tîm dylunio cymwysterau a arweiniwyd gan SQA ddatblygu'r pedair uned gyntaf, sy'n cynnwys dŵr poeth solar, ffotofolteddau a phympiau gwres. Defnyddir y rhain i ddatblygu hyfforddiant a achredir gan y diwydiant i wella sgiliau gweithle craidd ar gyfer systemau meicrogynhyrchu priodol.

- **Grŵp Llywio Carbon Isel**
  Mae SummitSkills yn cyfrannu at Grŵp Llywio Carbon Isel Llywodraeth yr Alban ar sut i ddefnyddio technolegau amgylcheddol ymddangosol i gwrdd â safonau ynni newydd ar gyfer adeiladau.

Hwb Arweinyddiaeth & Rheoli £2m i Orllewin Canolbarth Lloegr
Mae SummitSkills wedi hyrwyddo ymgyrch i greu arweinwyr busnes y dyfodol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, lle cynhaliwyd lansiad rhaglen £2m newydd wedi'i hanelu at helpu cwmnïau lleol ddod yn fwy cystadleuol.

Wedi'i ariannu gan Advantage West Midlands a'i gyflwyno gan Gyswllt Busnes yn y rhanbarth, bydd y prosiect Arweinyddiaeth a Rheoli yn gweithio gyda dros 1,000 o uwch reolwyr dros y tair blynedd nesaf drwy ddefnyddio arbenigwyr sicr o ran ansawdd i hybu sgiliau ac arbenigedd arweinwyr a rheolwyr. Bydd y symudiad uchelgeisiol hwn yn sicrhau bod gan yr ardal y sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i helpu pontio'r bwlch cynhyrchedd £10bn erbyn 2010.

Y Gogledd Orllewin yn hyrwyddo gyrfaoedd menywod ifanc
Cefnogodd Canolfan Adnoddau'r DU i Fenywod mewn Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg SummitSkills wrth gydlynu digwyddiad gyrfaoedd rhyngweithiol arbennig yng ngogledd orllewin Lloegr i ddangos i grwpiau a thangynrychiolir yr ystod o yrfaoedd o ansawdd uchel sydd ar gael mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Gwahoddwyd menywod ifanc 16–18 oed o ysgolion uwchradd lleol i brofi ystod o weithgareddau cysylltiedig â'r sector. Ymunodd yr AS Claire Curtis-Thomas â sawl llysgennad benywaidd y sector, a oedd yna i hyrwyddo eu rolau a'u llwybrau datblygu gyrfa, a rhannodd ei chyngor ysbrydoledig ei hun.

Cynhaliwyd y diwrnod ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl mewn cydweithrediad â Choleg Cymunedol Lerpwl. Roedd yn llwyddiant ysgubol ac mae SummitSkills yn bwriadu cynnal digwyddiadau tebyg yn y rhanbarth.

"Gyda'r ymagwedd gywir i ddatblygu eich pobl, rydych yn adennill eich costau hyfforddiant drosodd a thro."
Caroline Blackburn, Cydlynydd Hyfforddiant, Desco, Sunderland

Ymagwedd partneriaeth:
Llunio partneriaethau effeithiol i gyflawni amcanion

Mae SummitSkills wedi gweithio mewn perthynas ag ystod o bartneriaid eraill ar amryw brosiectau dros y 12 mis diwethaf:



Profiad yn Cyfrif yn y Alban
Arweiniodd y nifer cynyddol o newydd-ddyfodiaid sy'n gwneud cais am gyrsiau yn niwydiannau adeiladu a gwasanaethau adeiladau yr Alban bob blwyddyn at brinder o bobl gymwys yn y diwydiant oedd ar gael i'w hyfforddi. Oherwydd bod colegau yn adrodd am anawsterau recriwtio, lansiwyd ymgyrch i ymgysylltu unigolion profiadol fel darlithwyr, technegwyr neu aseswyr/dilyswyr.

Gweithiodd SummitSkills ochr yn ochr â dau gyngor sgiliau sector arall – ConstructionSkills ac Asset Skills – ar y prosiect Experience Counts a yrrwyd gan Lifelong Learning UK (LLUK) ac a ariannwyd gan Lywodraeth yr Alban.

Cofrestrodd dros 100 o bobl brofiadol ddiddordeb cychwynnol a chynhaliwyd gweithdai blasu mewn sawl coleg yn yr Alban, a arweiniodd at 33 o bobl yn cael eu gwerthuso fel hyfforddwyr gyda chefnogaeth LLUK.

NVQ seiliedig yn y coleg ar gyfer gwaith pibellau
Mae SummitSkills wedi llwyddo i drefnu cwrs gwaith pibellau cyntaf NVQ Lefel 3 seiliedig yn y coleg Lloegr i brentisiaid. Mae'r cwrs newydd, a ddechreuodd ym mis Chwefror yng Ngholeg Bexley yng Nghaint, yn ganlyniad naw mis o gydweithio rhwng SummitSkills, y coleg, y cyflogwr Hotchkiss Limited, a'r cymdeithasau masnach HVCA a Chymdeithas Contractwyr Gwaith Pibellau a Gwasanaethau Cysylltiedig i ateb anghenion y diwydiant.

Y canlyniad oedd ymrwymiad gan yr holl bartïon i gefnogi'r cwrs newydd, fydd yn cyfrif fel Prentisiaeth Uwch gan roi hyfforddiant ennill-tra'n-dysgu i bobl 16–24 oed. Er mwyn bod yn gymwys, bydd myfyrwyr eisoes wedi cwblhau prentisiaeth sylfaenol/NVQ Lefel 2 mewn gwaith pibellau.

Dyma'r cwrs cyntaf o'i fath i ddarparu maes llafur NVQ Lefel 3 seiliedig yn y coleg i fyfyrwyr sy'n cael eu rhyddhau ar sail ddyddiol yn y pwnc arbenigol hwn. Bydd hyfforddeion hefyd yn cael y cyfle i gwblhau Prentisiaeth Uwch HVACR SummitSkills mewn Gosod Gwaith Pibellau fel rhan o'r maes llafur.

Codi ymwybyddiaeth o sgiliau lefel uwch
Mae SummitSkills wedi gweithio mewn partneriaeth â Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes West Yorkshire (WYLLN) ar brosiect i godi ymwybyddiaeth am gyfleoedd y sector, a chefnogi cyflogwyr lleol a phobl sy'n dymuno gwella eu sgiliau lefel uwch.

Gan ganolbwyntio ar saith sector, yn cynnwys adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, ariennir y prosiect gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr am dair blynedd tan 2010.



Nododd WYLLN ben-blwydd cyntaf y prosiect gyda seremoni wobrwyo yn Neuadd Ddinesig Leeds i gyflwyno Gwobrau Dysgwyr Seiliedig ar Waith i Oedolion West Yorkshire i unigolion sydd wedi ennill sgiliau lefel uwch newydd. Bydd categorïau newydd yn cael eu cyflwyno yn 2009 i gydnabod cefnogaeth cyflogwyr a thiwtoriaid.

Menter LMI ar y cyd yn yr Alban
Mae SummitSkills wedi cyfrannu at fenter CSS ar y cyd i gynhyrchu cyfres gynhwysfawr o Hysbysrwydd y Farchnad Lafar (LMI) i'r Alban, elfen allweddol strategaeth sgiliau'r Llywodraeth i helpu nodi materion sgiliau a mynd i'r afael â blaenoriaethau.

Yn dilyn dosbarthu'r LMI, mae gan ASAau, awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau bellach ddata awdurdodol ar anghenion sgiliau penodol y sector. Dangosodd gwybodaeth a gasglwyd gan SummitSkills fod mwyafrif y cyflogwyr yn disgwyl gweld twf hir dymor mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau, ac roedd cynnydd yn nifer y prentisiaethau modern a gyflogwyd dros y ddwy flynedd flaenorol.

Fel rhan o'r cynllun gweithredu CSS, bydd SummitSkills yn parhau i helpu cyflogwyr i nodi'r hyfforddiant sgiliau mwyaf priodol i oruchwylwyr neu reolwyr canol i helpu i wella cynhyrchedd.

Athro Dysgu seiliedig ar Waith yn Ymweld
Yn ei ddarlith agoriadol ar 10 Medi, cyflwynodd Tony Thomas, Athro Dysgu seiliedig ar Waith ym Mhrifysgol South Bank Llundain, ei farn ar y cyhoeddiadau polisi a'r targedau gan y Llywodraeth ar addysg uwch a sgiliau. Mae'r swydd mewn Dysgu seiliedig ar Waith wedi'i hariannu ar y cyd rhwng SummitSkills ac Engineering Services Training Trust Limited.

Defnyddiodd Tony ein Dadansoddiad Anghenion Sector, CSS ac ymchwil ychwanegol SummitSkills i gyflwyno ei farn. Yn ogystal ag adlewyrchu ar gydweithredu a blaenoriaethau yn y dyfodol, archwiliodd hefyd gyfrifoldebau newydd cynghorau sgiliau sector am ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch a sylwodd ar y cyfraniad sydd ei angen gan ddysgu seiliedig ar waith.

"Mae cymwysterau yn ffordd o ddangos bod gennych fwy na phrofiad yn unig. Rwy'n credu'n gryf na ddylech fyth aros yn llonydd o ran hyfforddiant."
Tony McCreath, perchennog/rheolwr McCreath Heating and Plumbing

Gwybodaeth gorfforaethol

Ystadgedau'r wefan
Cynhyrchodd prif wefan SummitSkills 68,318 o ymwelwyr unigryw rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009. Cafodd gwefan newydd Good Day fwy na 6,000 o ymwelwyr a gyfeiriwyd yn uniongyrchol o'n prif safle, gan greu cyfanswm o 8,382 yn ystod yr un cyfnod.

Roedd y wefan cystadlaethau sgiliau skillMandE.org.uk hefyd yn boblogaidd iawn gyda chyfanswm o 2,612 o ymwelwyr unigryw. Roedd y cyfanswm hwn yn cynnwys 1,251 a gyfeiriwyd o brif wefan SummitSkills a'r gweddill fel cyfeiriadau o safleoedd allanol.

Newidiadau i'r bwrdd
Ymunodd tri unigolyn newydd â bwrdd SummitSkills i gryfhau'r aelodaeth ymhellach:

- ***Roy Colman*** *yw rheolwr cyffredinol Gofal Nwy Cymru. Mae Roy hefyd yn aelod gweithredol o Grŵp Gweithredu CSS SummitSkills yng Nghymru.*

- *Ymunodd* ***Ian Livsey*** *â ni fel cadeirydd ym mis Ionawr 2009, gan ddod â phrofiad gwerthfawr iawn ganddo. Mae gan Ian benodiad gweinidogol fel prif weithredwr yr Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau, corff gweithredol a noddir gan yr Adran Bwyd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig i sicrhau bod meistri gangiau sy'n darparu llafur mudol i economi'r DU yn cynnal safonau. Cyn hynny roedd yn gadeirydd ar Trustmark, menter i ddiogelu defnyddwyr rhag masnachwyr twyllodrus yn y diwydiant adeiladu domestig.*

- *Mae* ***David Smith*** *yn gontractiwr trydanol ac yn berchennog cwmni gosodiadau trydanol bach yn Rutherglen. Mae David hefyd yn aelod o fwrdd SELECT – cymdeithas fasnach yr Alban ar gyfer y diwydiant trydanol, electroneg a systemau cyfathrebu.*

Keith Marshall OBE
Enwyd prif weithredwr SummitSkills, Keith Marshall yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2008 a chafodd ei benodi yn Swyddog Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE) i gydnabod ei gyfraniad rhagorol i sgiliau.

Mae ei ymroddiad diflino tuag at ddatblygu hyfforddiant a sgiliau wedi tywys Keith drwy yrfa lewyrchus dros fwy nag ugain mlynedd. Mae wedi arwain SummitSkills yn llwyddiannus drwy ei drwyddedu cychwynnol yn 2004 a dyfarnu'r ail gontract yn 2007.

Wrth sôn am ei OBE, meddai Keith: "Rwyf wrth fy modd bod fy nghyfraniad i'r agenda sgiliau wedi cael ei gydnabod yn y modd hwn. Mae'n fraint bod yn PSG SummitSkills a byddaf yn parhau i ddiogelu ansawdd a safon sgiliau mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau."

Is-gadeirydd yn ennill gwobr HVCA
Dyfarnwyd Gwobr Gwasanaethau Rhagorol i Stuart Lyon, is-gadeirydd bwrdd SummitSkills, yn cydnabod ei ymroddiad i answdd, cymhwysedd a phroffesiynoldeb wrth hyrwyddo buddiannau peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Fel un o aelodau bwrdd gwreiddiol SummitSkills, mae wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'n sefydliad dros y pum mlynedd diwethaf ac mae'n hyrwyddwr hyfforddiant rhagweithiol iawn. Roedd Stuart yn rheolwr gyfarwyddwr MITIE Engineering Services (Scotland) am sawl blwyddyn ac mae'n gadeirydd Conffederasiwn Cymdeithasau Contractwyr Peirianneg Arbenigol yr Alban. Mae wedi dangos ymroddiad dwfn a gwirioneddol i'r sector drwy ei waith fel cadeirydd HVCA yn yr Alban, Pwyllgor Addysg y Gymdeithas a Fforwm Hyfforddiant Cenedlaethol HVACR.

Mae gan Stuart enw da o ganlyniad i'r blynyddoedd lawer o wasanaeth rhagorol y mae wedi'u cyfrannu i'r sector ac mae SummitSkills yn edrych ymlaen at barhau i weithio gydag ef yn y dyfodol.

Penodiadau newydd
Dros 12 mis prysur, roeddem yn falch i groesawu pum aelod newydd i dîm SummitSkills ar draws y DU:

- *Yn y gorffennol bu* ***Kelly Carter, Rheolwr CC & Chyfathrebu,*** *yn gofalu am gysylltiadau cyhoeddus i bum brand marsiandïol mewn cwmni adeiladau masnachol ac mae ganddi gefndir cryf mewn cyfathrebu marchnata*

- ***Peter Cooper, Rheolwr Datblygu Cynorthwyol.*** *Wedi dechrau fel prentis yn y sector, aeth Peter ymlaen i redeg ei fusnes gwresogi a phlymo ei hun am 24 mlynedd, ac ymgymerodd hefyd ag MsC ymchwil.*

- *Mae* ***Helen Lewis, Swyddog Cefnogi Prosiectau Cymru,*** *yn ymuno â SummitSkills yn dilyn gyrfa gyda'r GIG. Mae Helen yn cefnogi ein rheolwr gweithrediadau yng Nghymru ar amrywiaeth o brosiectau.*

- *Mae gan* ***Margaret McCann, Cynorthwy-ydd Gweinyddol,*** *gefndir cryf mewn AD a phensiynau. Mae Margaret yn gweithio fel rhan o'r tîm gweinyddol yn ein pencadlys, yn cefnogi'r gweithrediadau swyddfa dydd i ddydd yn ogystal â'n tîm o reolwyr y DU.*

- *Mae gan* ***Gina Tucker, Rheolwr Cyllid*** *gefndir cryf o 18 mlynedd o brofiad cyfrifeg, i ddechrau yn y diwydiant gweithgynhyrchu ac yna naw mlynedd gyda chwmni cyhoeddus yn ymwneud ag archwiliadau olew a nwy.*

Summit SKILLS

Vega House
Opal Drive
Fox Milne
Milton Keynes
MK15 0DF

Ffôn: 01908 303960

Ebost: enquiries@summitskills.org.uk

www.summitskills.org.uk

Alliance
Sector Skills Councils